

Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.



Annwyl Cyngorydd,

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Craffu Testun 1 o bell trwy Microsoft Teams ar **Dydd Llun, 19 Hydref 2020 am 14:30**.

AGENDA

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. **Datganiadau o fuddiant**
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.
3. **Cymeradwyaeth Cofnodion** 3 - 16
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 21/01/2020 a 03/02/2020
4. **Diweddarriad Rhaglen Gwaith** 17 - 22
5. **Adroddiad Enwebu Hyrwyddwr Rhiant Corfforaethol** 23 - 26
6. **Enwebu i Banel Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** 27 - 30
7. **Materion Brys**
I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Yn ddiffuant

K Watson

Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

Twitter@bridgendCBC

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

Nodyn: Sylwch: Yn sgil yr angen i gadw pellter cymdeithasol, ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Yn hytrach, bydd hwn yn gyfarfod rhithwir a bydd Aelodau'r Cyngor a Swyddogion yn mynuchu o bell. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio i'w ddarlledu ar wefan y Cyngor cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y cyfarfod. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Dosbarthiad:

Cynghorwyr

T Giffard
JPD Blundell
RJ Collins
M Jones
B Sedgebeer
J Gebbie

Cynghorwyr

SK Dendy
AJ Williams
KJ Watts
PA Davies
RME Stirman
JH Tildesley MBE

Cynghorwyr

TH Beedle
A Williams
KL Rowlands
SE Baldwin

Cynrychiolwyr Cofrestredig

Tim Cahalane – Eglwys Gatholig Rufeining
Ciaron Jackson – Sector Ysgolion Cynradd
Rev. Canon Edward Evans – Yr Eglwys yng Nghymru
Lynsey Morris – Sector Ysgolion Uwchradd

Agenda Item 3

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 - DYDD MAWRTH, 21 IONAWR 2020

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 A GYNHALIWYD YN SIAMBR
Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31
4WB DYDD MAWRTH, 21 IONAWR 2020, AM 09:30**

Presennol

Y Cyngħorydd T Giffard – Cadeirydd

TH Beedle
KL Rowlands

JPD Blundell
B Sedgebeer

PA Davies
RME Stirman

M Jones
AJ Williams

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

NA Burnett, SK Dendy, J Gebbie, KJ Watts a/ac A Williams

Swyddogion:

Julie Ellams	Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Pwyllgorau
Rachel Pick	Swyddog Craffu
Andrew Rees	Rheolwr Gwasanaethau Democraidd

89. DATGAN BUDDIANNAU

Eitem 4, Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2020-21 i 2023-24

Datganodd y Cyng. T Beedle fuddiant personol yn yr eitem hon oherwydd ei fod yn Gadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Pen-y-bont ar Ogwr.

Datganodd y Cyng. JP Blundell fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei fod yn llywodraethwr cymunedol Ysgol Babanod Cefn Glas.

Datganodd y Cyng. P Davies fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei bod yn llywodraethwr yn Ysgol Babanod ac iau Bryntirion.

Datganodd y Parch. Ganon Edward Evans fuddiant personol yn yr eitem hon am ei fod yn llywodraethwr cymunedol ym Mryntirion.

Datganodd y Cyng. T Giffard fuddiant personol yn yr eitem hon oherwydd ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Tre-maen.

Datganodd y Cyng. M Jones fuddiant personol yn yr eitem hon oherwydd ei fod yn Is-gadeirydd Ysgol Gynradd Betws.

Datganodd y Cyng. K Rowlands fuddiant personol yn yr eitem hon oherwydd bod ei mab mewn prentisiaeth yn Adran Addysg CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

Datganodd y Cyng. R Stirman fuddiant personol yn yr eitem hon gan ei bod yn llywodraethwr nid-AALI yn Ysgol Gynradd Ty'nyrheol ac yn llywodraethwr ysgol ALI yn Ysgol Gynradd Betws.

Datganodd y Cyng. AJ Williams ddiddordeb personol yn yr eitem hon gan ei bod yn rhiant-llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Coety.

Datganodd y Cyng. P White fuddiant personol am ei fod yn llywodraethwr Ysgol Gyfun Maesteg ac Ysgol Gynradd Nantyfyllon.

90. CYMERADWYO COFNODION

Bu'r Aelodau'n ystyried cofnodion cyfarfodydd 9 Hydref 2019 a 30 Hydref 2019.

9 Hydref 2019 – Dywedodd y Cyng. Beedle na chofnodwyd ei bryderon ynghylch diliusrwydd hyfforddiant i lywodraethwyr ac aelodau AALI yn methu â mynchyu cyfarfodydd a'u diffyg cyfranogiad. Roedd Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi cyflwyno archwiliad sgiliau ac nid oedd hynny yn cofnodion ychwaith.

30 Hydref 2019 – Dywedodd y Cyng. Giffard ei fod wedi datgan buddiant personol yn yr eitem "Adolygiad o Ddarpariaeth Addysg Ôl-16 ledled Pen-y-bont ar Ogwr" am ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Tre-maen, ond na chofnodwyd hynny.

Dyweddodd y Parch. Ganon Edward Evans na fu modd iddo ddod i gyfarfod 30 Hydref 2019 felly roedd wedi anfon cyfres o gwestiynau i'w gofyn yn ei absenoldeb. Nid oedd cyfeiriad at ei gwestiynau yn y cofnodion. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaidd i ymchwilio i hyn.

PENDERFYNWYD Y cymeradwyir Cofnodion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc dyddiedig 9 Hydref 2019 a 30 Hydref 2019 yn gofnod cywir yn amodol ar y cwiriadau a nodir uchod.

91. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2020-21 I 2023-24

Cyflwynwyd Strategaeth Ddrafft Ariannol Tymor Canolig 2020-21 i 2023-24 gan Reolwr y Grŵp Cynllunio Ariannol a Rheoli Cyllidebau. Mae'r strategaeth yn cyflwyno blaenoriaethau gwario'r Cyngor, amcanion buddsoddi allweddol a meysydd cyllideb sydd wedi'u targedu ar gyfer yr arbedion angenrheidiol.

Eglurodd y Rheolwr Grŵp Cynllunio Ariannol a Rheoli Cyllidebau fod cyllidebau ysgolion wedi'u diogelu unwaith eto rhag y targed effeithlonwyd o 1% yn 2020-21 ar ôl cael setliad dros dro gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, roedd y SATC drafft yn cynnwys cyllid ar gyfer sawl agwedd o gyllideb y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd y mae cryn bwysau arnynt, gan gynnwys cyllid i ysgolion.

Cyfeiriodd aelod at y toriad o 10% i'r cyfraniad i Gonsortiwm Canolbarth y De (CCD) a gofynnodd pa mor gynaliadwy oedd hyn o gofio bod toriadau tebyg wedi'u gwneud dros y tair blynedd diwethaf. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod arbedion o 17.5% wedi'u gwneud dros y 5 mlynedd diwethaf ac roedd hyn yn anodd i CCD. Er mwyn lleihau gorbenion, roedd CCD wedi symud i safle newydd ac roeddent yn canolbwytio ar gynnal gwasanaethau rheng flaen gan leihau staff ystafell gefn ar yr un pryd. Cytunodd Penaethiaid Ysgol Gyfun Cynffig ac Ysgol Gynradd Llangowydd nad oeddent wedi gweld unrhyw newid hyd yma o ran sawl gwaith yr oedd y Cynghorwr Her yn ymweld na chwaith i'r gweithdai a'r cynadreddau a gynhalwyd. Gofynnodd aelod a oedd pob awdurdod yn gwneud toriadau tebyg. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd y cytunai'r Cydbwyllgor ar yr un gostyngiad yn gyffredinol a mynegodd y byddai'r gostyngiad terfynol tebygol yn llai na 10%.

Gofynnodd aelod a fu toriadau o fewn y Gyfarwyddiaeth neu ai'r ysgolion a welodd y toriadau llymaf. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd y bu toriadau sylweddol i staff dros y 5 mlynedd diwethaf ac y gwnaed arbedion sylweddol o ran rheoli swyddi gwag.

Cyfeiriodd aelod at Egwyddorion SATC ac yn arbennig at y dull "Un Cyngor". Credai nad oedd adrannau'n siarad â'i gilydd a rhoddodd enghraift o gludiant o'r cartref i'r ysgol a

Llwybrau diogel i'r ysgol. Darparwyd cludiant am ddim i'r ysgol i blant yng Nghoety a oedd yn byw'n agos i'r ysgol ond na allent gerdded am nad oedd llwybr diogel. Dywedodd yr aelod na fu unrhyw gydgynllunio a bod ei hawgrym i godi estyniad ar dir sy'n ffinio ag ysgol sydd â gormod o blant ynddi, yn hytrach nag adeiladu ysgol newydd, wedi'i wrthod oherwydd cost adeiladu wal gynnal. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd y bu llawer o sgyrsiau ynglŷn â'r heriau cysylltiedig â llwybrau cerdded diogel. Roedd yn rhaid iddynt ddilyn canllawiau LIC ac roedd rhai achosion yn haws i'w datrys nag eraill. Ymdriniodd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion ag ysgolion ac estyniadau newydd ac yn aml roedd blaenorriaethau'n cystadlu â'i gilydd. Argymhellodd yr Aelodau y dylid cael agwedd "Un Cyngor", gyda swyddogion Addysg, Cynllunio a Chyllid yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu llwybrau cerdded a mannau croesi a thrwy hynny leihau'r ddibyniaeth ar gludiant i'r ysgol, a'i gost.

Gofynnodd aelod pa effaith a gafwyd ar lefelau salwch yng ngoleuni'r toriadau staff ac a oedd yr awdurdod yn defnyddio staff asiantaeth. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd nad oedd lefelau salwch wedi gwella gyda nifer fach o staff yn absennol am gyfnod sylweddol. Adroddodd hefyd fod straen cysylltiedig â gwaith wedi cynyddu ers y llynedd. Roedd cynllun iechyd galwedigaethol cefnogol iawn ac roeddent yn gweithio'n agos gydag Adnoddau Dynol i gefnogi staff i ddychwelyd i'r gwaith. Roeddent yn osgoi defnyddio staff asiantaeth lle bynnag y bo modd. Cytunodd Penaethiaid Ysgol Gyfun Cynffig ac Ysgol Gynradd Llangowydd y byddai athro cyflenwi ar y safle y rhan fwyaf o ddiwrnodau, ac er eu bod yn ceisio gweithredu systemau roedd yn anodd ei osgoi. Ni welsant gynnydd mewn straen cysylltiedig â gwaith ond gwelsant fod staff yn agored i anhwylderau bychain.

Gofynnodd aelod a oedd cyllidebu datganoledig yn gweithio ac a allai'r awdurdod fod yn ffyddiog bod ysgolion yn cael y maint cywir o gyllid. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod 59 o ysgolion â nod cyffredin a bod cynllunio'n anodd. Y pwysau mwyaf oedd codiadau cyflog a phensiwn athrawon ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Awst 2020 a oedd wedi'u hariannu'n llawn, ac effeithiau dyfarniadau cyflog athrawon yn y dyfodol a fyddai'n dod i rym o fis Medi 2020. Canfuwyd hefyd bod angen cymorth ychwanegol 1:1 ar nifer sylweddol o ddisgyblion ysgol arbennig. Eglurodd Rheolwr y Grŵp Cynllunio Ariannol a Rheoli Cyllidebau y dylai'r codiad cyflog a phensiwn gael ei ariannu'n llawn ar gyfer 20/21 a bod £185,000 wedi'i nodi yn bwysau cyllidebol ar gyfer cymorth 1:1 i ddisgyblion ysgol arbennig.

Roedd Penaethiaid Ysgol Gyfun Cynffig ac Ysgol Gynradd Llangowydd yn siomedig nad oedd unrhyw arian ychwanegol wedi'i ddyrrannu i ysgolion, er y bu gwelliant sylweddol yn y setliad. Roedd pwysau cyflog a phensiynau athrawon wedi'u bodloni, a oedd yn eu cadw ar eu sefyllfa bresennol. Nid oedd mwy o gyllid mewn termau gwirioneddol a bu'n rhaid iddynt barhau i fod yn hynod greadigol i ymdrin â phwysau newydd ar y gyllideb. Croesawodd y Pwyllgor y setliad cyllideb gwell ond roedd o'r farn bod y Cyngor yn aros yn ei hunfan, ac y byddai'n anos gwneud arbedion yn y dyfodol gan fod llawer o ysgolion wedi gweld cynnydd yng ngofynion ymddygiadol disgyblion, yr oedd yn rhaid i ysgolion eu hariannu eu hunain, ac a fyddai'n anos eu hariannu.

Gofynnodd aelod am ragor o wybodaeth am y gyllideb ar gyfer cymorth ymddygiad. Gallai ymddygiad gwael arwain at waharddiadau parhaol a gallai hyn effeithio ar staff a'u lles. Nid oedd yr arolwg staff blaenorol wedi'i anfon at staff ac athrawon yn yr ysgol a phe bai'r staff yn anhapus yna gallai hynny arwain at salwch ac absenoldeb. Nododd yr Aelodau fod diffyg yn y gyllideb yn ychwanegu at y broblem. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod gan hanner yr ysgolion ddiffyg yn eu cyllidebau a bod gan rai ddiffygion cyllideb sylweddol. Os oedd y diffyg yn fwy na 5%, rhoddwyd cynllun adfer diffyg ar waith. Gwelwyd fod pwysau ar gyllidebau oherwydd cymorth gydag ymddygiad, ac roedd ysgolion yn gwneud gwaith hynod wrth gynnal presenoldeb disgyblion anodd iawn. Roedd hefyd yn cydnabod dyletswydd statudol

amddiffyn staff. Mynegodd y Pwyllgor bryder y gallai'r cynnydd yng ngofynion ymddygiadol disgyblion gael effaith ar les staff, a allai arwain, yn ei dro, at gynnnydd mewn salwch a rhoi pwysau ar gyllidebau ysgolion. Argymhellodd yr Aelodau y dylid gwneud cais i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd am gynnwys staff ysgol yn yr arolwg staff, gan ofyn am eu barn ar reolaeth, lles yn y gweithle, cyfathrebu o fewn y Cyngor, a chyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu.

Gofynnodd aelod beth oedd y galw am CLG Landlord Corfforaethol ac a oedd yn gweithio. Eglurodd Pennaeth Ysgol Gyfun Cynfig eu bod wedi dewis haen 1. Nid oedd yn sicr pa mor effeithiol ydoedd ac roedd yn ymddangos bod safbwytiau gwahanol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a haen 1 a haen 2. Dywedodd aelod arall fod y system, o'i phrofiad hi, yn gweithio'n dda gyda materion wedi'u categorieddio a'u datrys yr un diwrnod, gan fwyaf. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod hyn yn dod o fewn y Gyfarwyddiaeth Gymunedau. Argymhellodd yr Aelodau y dylid rhoi eitem ar y Flaenraglen Waith ynglŷn â defnydd ysgolion o'r gwasanaeth Landlord Corfforaethol.

Cododd aelod fater ymddygiad a gwaharddiadau disgyblion a'r effaith ar staff. Gofynnodd yr Aelodau pwy oedd yn talu am gludo plentyn i ysgol wahanol yn dilyn ei wahardd. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod lles staff yn hollbwysig. Cadarnhaodd na fyddai unrhyw gost ychwanegol i'r ysgol ac mai dim ond pan fetho popeth arall y cai disgybl ei wahardd. Mae pob ysgol yn gweithio'n eithriadol o galed i gynnal presenoldeb. Weithiau gallai dechrau newydd mewn ysgol wahanol weithio, a byddai'r ALI yn talu'r gost. Roedd yr her yn fwy pan waharddwyd y plentyn ar 2 achlysur oherwydd cost hyfforddiant yn y cartref neu leoliad y tu allan i'r sir.

Gofynnodd aelod pa mor weladwy oedd y Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn yr ysgolion a faint o gymorth a ddarparwyd gan yr heddlu. Eglurodd Pennaeth Ysgol Gyfun Cynfig fod ganddynt swyddog cyswllt heddlu ysgol a oedd yn bresennol am wahanol resymau megis troseddau cyllell a chamdefnyddio sylweddau. Roedd ar gael yn llai aml oherwydd toriadau ond roedd yn dal i weithio gyda'r plant. Gweithiai SCCH yn dda gyda'r ysgolion ond roedd lefel y cymorth a ddarparwyd ganddynt yn ymddangos yn anghyson ar draws yr ysgolion. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod gweithio mewn partneriaeth yn allweddol a'u bod yn gwneud llawer o waith gyda nifer o asiantaethau megis Cymorth Cynnar, CDA, SCCH a CAMHS. Argymhellodd yr Aelodau y dylid gofyn i'r Heddlu sefydlu'r gwahanol lefelau o gymorth a ddarperir gan yr Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol i gefnogi ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol.

Cyfeiriodd aelod at gludiant o'r cartref i'r ysgol ac yn benodol, y toriadau arfaethedig ar gyfer disgyblion ôl-16. Credai ei fod yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion a oedd yn byw ymhell o ysgolion gyfun heb unrhyw fai arnynt hwy eu hunain e.e. disgyblion a oedd yn byw yn y cymoedd ac yn mynychu Coleg Cymunedol y Dderwen. Gofynnodd hefyd beth oedd yn digwydd i addysg Ôl-16 ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Byddai rhai o'r dewisiadau'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddisgyblion deithio mwy, a sut oedd hynny'n cyd-fynd â chludiant o'r cartref i'r ysgol? Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd nad oedd addysg ôl-16 yn statudol ac nad oedd gofyniad i ddarparu trafnidiaeth, felly ni fyddai'n wahaniaethu o safbwyt cyfreithiol. Roedd diffyg yn y gyllideb felly roedd yn rhaid iddynt fynd ati i atal y dirywiad. Roeddent yn cyfarfod â gwahanol ddarparwyr ac yn ystyried amryw ddewisiadau, fel tocynnau teithio; ond roedd hyn yn her fawr iawn. Roeddent wrthi'n paratoi papur i'w gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ebrill. Roeddent yn ymwybodol y gallai hyn effeithio ar gannoedd o ddisgyblion. Dywedodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ei fod yn cydymdeimlo ond dyma'r ddegfed flwyddyn o gyni ac nad oedd diwedd mewn golwg. Roedd yn anodd gweld faint o deuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig fyddai'n gallu

fforddio trafnidiaeth. Roeddent yn ystyried sawl posibilrwydd ac efallai nad dull gweithredu cyffredinol yw'r ateb, ond ymdrin â phob achos yn unigol.

Cododd aelod bryderon bod staff y Gwasanaeth Troseddau leuenctid yn gweithio gyda disgyblion ac nad oedd yr wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r ysgol. Nid dull gweithredu un-cyngor, i bob golwg. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd y dylid cynnal cyfarfod tîm gyda chynrychiolydd o'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid yn bresennol, a chytunodd i ymchwilio i hyn.

Cyfeiriodd aelod at y cynnydd yn nifer y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a gofynnodd a oedd hyn yn effeithio ar gyllidebau ysgolion. Atebodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod y cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a chost anghenion dysgu ychwanegol yn bwysau cyllidebol. Ychwanegodd Aelod arall fod nifer o ddisgyblion yn ei ward yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac y byddai'r ward hon hefyd yn dioddef pe diléid cyfleoedd ôl-16 hefyd. Amheuai, hefyd, y ffordd y cai unrhyw gredyd ei ddileu yn y pen draw yn hytrach na'i fod yn crynhoi a chaniatáu i'r disgybl wario rhagor ar ddiwrnod arall. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd y gofynnwyd i'r Cabinet edrych ar nifer o ddewisidiadau gan gynnwys Clybiau Brecwast am ddim i ysgolion uwchradd, edrych ar bris prydau ysgol a chynlluniau arloesi ar gyfer gwyliau'r haf a'r Nadolig. Roedd Llywodraeth y Cynulliad yn edrych ar Glybiau Brecwast blwyddyn 7 ar gyfer disgyblion sy'n pontio. Roedd ystyriaeth i ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i brynu bwyd ar gyfer clwb brecwast bach, hefyd. Dywedodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar iddo fynd i fore agored i Ofalwyr Ifanc yng Ngholeg Cymunedol y Dderwen a siaradodd am anawsterau plant yn mynd i'r ysgol yn teimlo'n llwglyd. Roedd yn falch o fod yn rhan o fentrau Llywodraeth Cymru a CBS Pen-y-bont ar Ogwr a chydabu fod staff ysgol yn cadw golwg ar ddisgyblion mewn angen ac yn eu cynorthwyo. Argymhellodd yr Aelodau y dylid sefydlu a ellid defnyddio Grant Datblygu Disgyblion i ddarparu bwyd.

ARGYMHELLION:

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried cynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, penderfynodd yr Aelodau wneud y sylwadau a'r argymhellion canlynol:

- Croesawodd y Pwyllgor y setliad cyllideb gwell ond roedd o'r farn bod cyllidebau ysgolion yn aros yn eu hunfan ac y byddai'n anos gwneud arbedion yn y dyfodol gan fod llawer o ysgolion wedi gweld cynnydd yng ngofynion ymddygiadol disgyblion, yr oedd yn rhaid i ysgolion eu hariannu eu hunain ac a fyddai'n anos eu hariannu. Mynegodd y Pwyllgor bryder y gallai'r cynnydd yng ngofynion ymddygiadol disgyblion effeithio ar les staff, a allai arwain, yn ei dro, at gynnydd mewn salwch a rhoi pwysau ar gyllidebau ysgolion.
- Bod eitem yn cael ei rhoi ar y Flaenraglen Waith ynghylch defnydd ysgolion o'r gwasanaeth Landlord Corfforaethol.
- Mewn perthynas ag AChD1 ac AChD41 Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol, Addysg Ôl-16 a'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion gyda datblygu ysgolion newydd a'i heffaith ar ddal gylchoedd presennol a Chytundebau Adran 106 mae angen dull Un-Cyngor gyda swyddogion Addysg, Cynllunio a Chyllid yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu llwybrau cerdded a mannau croesi a thrwy hynny ddiddymu'r ddibyniaeth ar gludiant i'r ysgol a chost cludiant i'r ysgol. Y dylai llwybrau diogel i'r ysgol fod yn rhan o'r adolygiad addysg Ôl-16.

- Y dylid gwneud cais i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd gynnwys staff ysgol yn yr arolwg staff gan ofyn eu barn ar reolaeth, lles yn y gweithle, cyfathrebu o fewn y Cyngor, cyfleoedd dysgu a datblygu.
- Y dylid gwneud cais i'r Heddlu i sefydlu'r gwahanol lefelau o gymorth y mae'r Heddlu, Swyddogion Cymorth Cymunedol a Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn eu darparu i gefnogi ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol

Mewn perthynas ag AChD5, y cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y dylid sefydlu a ellir defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i ddarparu bwyd i glybiau brecwast.

92. **Y DIWEDDARAF AM Y FLAENRAGLEN WAITH**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaidd y Flaenraglen Waith. Esboniodd y byddai PTChP1 yn derbyn yr adroddiad Canlyniadau Addysg ar 5 Chwefror 2020 a Theithio gan Ddysgwyr ar 9 Mawrth 2020. Gofynnodd yr Aelodau a ellid gwahodd myfyrwyr a'r Maer leuenctid neu gydweithwyr ac a ellid darlledu'r cyfarfod ar y we. Awgrymodd aelod y dylid cynnal y cyfarfod yn un o'r ysgolion cyfun a newid yr amser dechrau i 3 pm er mwyn y disgyblion. Dywedodd aelod arall y byddai ganddo broblemau gofal plant ar yr amser hwnnw a gallai hyn fod yn broblem i aelodau eraill o'r pwylgor hefyd. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaidd pe cynhelid y cyfarfod mewn ysgol, na ellid darlledu'r cyfarfod ar y we a chytunodd i ymchwilio i'r dewis hwn.

93. **EITEMAU BRYS**

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 11:26

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 - DYDD LLUN, 3 CHWEFROR 2020

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 A GYNHALIWYD YN SIAMBR
Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31
4WB DYDD LLUN, 3 CHWEFROR 2020, AM 14:30**

Presennol

Y Cyngorydd T Giffard – Cadeirydd

JPD Blundell	PA Davies	SK Dendy	J Gebbie
M Jones	KL Rowlands	B Sedgebeer	RME Stirman
KJ Watts	A Williams	AJ Williams	

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

TH Beedle, NA Burnett, RJ Collins a/ac JH Tildesley MBE

Swyddogion:

Nicola Echanis	Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnar
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Pwyllgorau
Lindsay Harvey	Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd
Michelle Hatcher	Rheolwr Grŵp Cynhwysiant a Gwella Ysgolion
Meryl Lawrence	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Craffu
Rachel Pick	Swyddog Craffu

95. DATGANIADAU BUDDIANT

Derbyniwyd y datganiadau buddiant personol canlynol mewn perthynas ag Eitem 3 yr Agenda:

Cyngorydd Amanda Williams – Fel Rhiant-lywodraethwr yn Ysgol Gynradd Coety; Cyngorydd JP Blundell – Fel Rhiant-lywodraethwr yn Ysgol Babanod Cefn Glas; Parchedig Ganon E Evans – Fel Rhiant-lywodraethwr yn Ysgol Gyfun Bryntirion.

96. DEILLIANAU ADDYSGOL

Cyflwynwyd adroddiad gan Uwch Gynghorydd Her Consortiwmm Canolbarth y De (CCD), a'i ddiben oedd cyflwyno deilliannau addysgol 2018-2019 i'r Pwyllgor ar gyfer y cyfnod sylfaen, cyfnodau allweddol 2, 3 a 4, ac ôl-16 yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd yr adroddiad yn gwerthuso perfformiad addysgol yn ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod 2018-2019.

Esboniodd fod cynnwys yr adroddiad yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newidiadau sylweddol o ran y ffordd y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn adrodd ar fesurau perfformiad a sut y dylid eu defnyddio. Ymhelaethwyd ar fanylion pellach mewn perthynas â hyn yn y wybodaeth gefndir i'r adroddiad (paragraff 3).

Roedd Atodiad A yr adroddiad yn cynnwys tablau â'r data pennawd ar gyfer cyfnod allweddol 4 ac ôl-16.

Hefyd, roedd angen ystyried yr adroddiad o fewn cyd-destun arolygiad Estyn o wasanaethau addysg llywodraeth leol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Mawrth 2019, a amlygodd nifer o gryfderau ym mherfformiad yr awdurdod lleol ynghyd â nodi meysydd

i'w datblygu ymhellach. Gellir gweld adroddiad arolygu llawn Estyn yn Atodiad B (i'r adroddiad).

Er mwyn cynorthwyo'r Aelodau i ddeall y newidiadau i fesurau perfformiad, cynhalwyd sesiwn ddiweddar gan CCD a'r awdurdod lleol ar gyfer yr holl aelodau etholedig ym mis Medi 2019. Roedd copi o'r cyflwyniad hwn ynghlwm yn Atodiad C yr adroddiad.

Roedd adran nesaf yr adroddiad yn cynnwys canlyniadau ar ffurf manylion perfformiad gan gynnwys canlyniadau perfformiad ysgolion/disgyblion yn y grwpiau oedran blwyddyn ysgol canlynol:-

- Cyfnod Sylfaen
- Cyfnod Allweddol 2
- Cyfnod Allweddol 3
- Cyfnod Allweddol 4
- Ôl-16

O ran cryfderau data deilliannau Addysgol, amlygodd yr adroddiad hefyd fod deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn parhau i fod ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan.

Gwelwyd perfformiad gwell o ran deilliannau Cyfnod Allweddol 2, o gymharu â'r cyfartaledd rhanbarthol a chyfartaledd Cymru gyfan.

O dan y mesur perfformiad interim newydd yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r awdurdod lleol wedi perfformio'n dda, yn gyffredinol yn unol â chyfartaleddu rhanbarthol ac yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Yn hyn o beth, roedd y bwlch mewn perfformiad rhwng dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim (eFSM) a dysgwyr nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim (nFSM) yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Hefyd, o dan y mesurau perfformiad interim newydd, roedd perfformiad bechgyn yng Nghyfnod Allweddol 4 yn well na chyfartaledd Cymru gyfan.

O ran data deilliannau Addysgol, meysydd i'w datblygu, cafwyd tystiolaeth o welliant parhaus mewn perfformiad llythrennedd yng Nghyfnod Allweddol 2.

Gwelwyd gwelliant hefyd yn y cyfnod ôl-16 ym mesur A* - C, a oedd cystal â, neu'n well na, chyfartaledd Cymru gyfan.

Dyweddodd yr adroddiad fod angen cau'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion eFSM ac nFSM ym mhob cyfnod. Roedd cyflymder y cynnydd mewn ysgolion yn achosi rhywfaint o bryder hefyd ac roedd angen gwella rhywfaint.

Roedd paragraffau 4.52 i 4.76 cynwysedig yr adroddiad yn amlinellu gwybodaeth mewn perthynas â'r her a'r gefnogaeth a ddarperir gan CCD, ynghyd â gwybodaeth ystadegol arall a data cysylltiedig mewn perthynas ag ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ar Ogwr (CBSP), gan gynnwys arolygiadau a/neu adolygiadau o rai ysgolion gan Estyn. Roedd hyn hefyd yn cynnwys manylion y berthynas barhaus sydd gan CCD â'r Cyngor, a'r berthynas arfaethedig wrth symud ymlaen.

Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn nodi bod CCD yn parhau i chwarae rhan arweiniol yn natblygiad y Cwricwlwm i Gymru; a'i fod yn gweithio gydag ysgolion arloesi, Llywodraeth Cymru ac mewn partneriaeth â'r consortia rhanbarthol eraill ledled Cymru. Rhoddwyd enghreifftiau o'r math o waith roedd hyn yn ei gynnwys ym mharagraff 4.75 yr adroddiad.

Yn olaf, roedd yr adroddiad yn nodi y darparwyd cyllid ychwanegol yn 2018-19 i gefnogi blaenoriaethau penodol Pen-y-bont ar Ogwr trwy Atodiad yr Awdurdod Lleol. Y cyllid a ddyrannwyd oedd £19,449.

Yn 2018-19, defnyddiwyd y cyllid i gyllido gweithgareddau fel rhan o Wyl Ddysgu Pen-y-bont ar Ogwr. Gwnaed sylwadau gan randdeiliaid ar lwyddiant yr Wyl Ddysgu yn ystod arolygiad Estyn yr awdurdod lleol ym mis Mawrth 2019.

Holodd Aelodau'r cwestiynau canlynol:

Ailadroddodd Aelod gais blaenorol i gynnwys Crynodeb Gweithredol cryno a chlir mewn adroddiadau – roedd yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ac roedd angen ei ddeall.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth Teulu y bydd yn bwrw ymlaen â'r cais.

Cyfeiriodd Aelod at strwythur gwybodaeth ategol yr adroddiad sydd wedi'i chynnwys fel rhan o'r Atodiad, a theimlai y gellid bod wedi darparu mwy o esboniad, mewn perthynas â'r newidiadau newydd yn ogystal â'r system bwyntiau.

Dywedodd Uwch Gynghorydd Her CCD fod hwn i raddau yn waith ar y gweill o hyd, a bod cyflwyniad wedi'i ddarparu i'r Aelodau ar y newidiadau newydd i fesurau perfformiad ym mis Medi 2019 a bod y sleidiau hyfforddiant wedi'u hatodi i'r adroddiad gerbron yr Aelodau. Ychwanegodd fod Cyfnod Allweddol 4 bellach wedi symud i ffwrdd oddi wrth 'fesurau trothwy canrannol', i sgorau pwyntiau. Cyflwynwyd hyn o ganlyniad i naratif gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod y system bwyntiau newydd yn rhoi dealltwriaeth well o'r ffordd roedd ysgolion yn perfformio ym meysydd ehangach y cwricwlwm.

Cafwyd sylwadau gan Aelod ar y bwlcw cyffredinol mewn perfformiad addysgol rhwng bechgyn a merched yn y pynciau craidd, o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol a Phen-y-bont ar Ogwr, o flwyddyn i flwyddyn.

Dywedodd Uwch Gynghorydd Her CCD y byddai'r Llwybr Dilyniant yn mynd i'r afael â gwelliannau a'i bod hefyd yn anodd tynnu cymhariaeth rhwng Cyfnod Allweddol 4 eleni a'r flwyddyn flaenorol.

Cyfeiriodd Aelod at dudalen 9 yr adroddiad a'r adran ar ddata deilliannau Addysgol, a nododd nad oedd cyfeiriad at Gyfnod Allweddol 3, lle'r oedd perfformiad ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi gostwng am y flwyddyn honno i ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Teimlai fod angen rhagor o wybodaeth yn hyn o beth.

Dywedodd Uwch Gynghorydd Her CCD fod paragraffau 4.47 i 4.51 yr adroddiad yn canolbwytio ar feisydd i'w datblygu yn unig mewn cyfnodau gwahanol of fewn Cyfnodau Allweddol mewn ysgolion. Cydnabu y bu gostyngiad mewn perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 3 eleni ond, ar y cyfan, roedd y duedd yn gadarnhaol.

Gofynnodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr athrawon a oedd yn bresennol yn y cyfarfod sut oedd y newidiadau sylweddol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) o ran y ffordd mae ysgolion (ac awdurdodau lleol) yn adrodd ar fesurau perfformiad, gan gynnwys sut y dylid defnyddio'r rhain, wedi effeithio ar eu hysgolion.

Dywedodd Penaethiaid Ysgolion Uwchradd fod mesur perfformiad mewn Gwyddoniaeth wedi newid 3 gwaith mewn 3 blynedd, gyda rhai negeseuon cymysg gan LIC. Bu dryswch ymhliith pobl ifanc, ac roedd angen esbonio'r newidiadau i staff a chyrff Ilywodraethu yng hylch y sgôr pwyntiau cyfartalog a'r newidiadau yn y defnydd o iaith.

Croesawodd Penaethiaid Ysgolion Cynradd rai o'r newidiadau, roeddent yn falch i symud oddi wrth ddull data mawr, ac roeddent yn ailadrodd fod y broses olrhain yn fesur cadarn i olrhain cynnydd unigolyn.

Dywedodd Pennaeth YG Llangynwyd y byddai gostyngiad hefyd yn y cymwysterau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dywedodd Pennaeth Ysgol Arbennig Heronsbridge fod y cynigion newydd sydd ar waith wedi arwain at gynnydd gwell yn yr ysgol, ond nad oeddent yn cynorthwyo'r rhai a oedd eisiau cymharu perfformiad ysgolion.

Cyfeiriodd Aelod at baragraff 3.6 yr adroddiad, lle nodir ei bod bellach yn amhriodol i gyhoeddi data ar lefel ysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 mewn adroddiad cyhoeddus.

Dywedodd Uwch Gynghorydd Her CCD fod un o'r newidiadau a gyflwynwyd wedi gweld symudiad i ffwrdd oddi wrth ddata'n cael eu rhannu a'u cymharu rhwng ysgolion, tuag at system fwy cydweithredol. Roedd data a gasglwyd yn flaenorol yn parhau i fodoli, ychwanegodd; fodd bynnag, nid oedd awdurdodau lleol yn eu cydgrynhau'n allanol fesul ysgol at ddibenion cymharu rhwng ysgolion. Roedd y ffordd ymlaen yn arwain mwy at ddeillio data cydweithredol, yn hytrach na data cystadleuol, oedd ei gasgliad. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen edrych ar godi ymwybyddiaeth am y newidiadau mewn perfformiad ac wrth adrodd ar gategoreiddio, gan fod diffyg dealltwriaeth ynghylch hyn.

Hysbyswyd y Gwahoddedigion gan Aelod ei bod yn ymwybodol bod plentyn ym Mlwyddyn 6 mewn ysgol leol wedi sefyll prawf mathemateg ar-lein gan dalu ffi i'w gwblhau. Roedd yn ymwybodol bod profion tebyg mewn pynciau eraill y gallai disgyblion eu sefyll ar-lein yn yr un modd. Holodd gynrychiolwyr CCD p'un ai oeddent yn teimlo bod hyn yn gam cadarnhaol ymlaen.

Cadarnhaodd Uwch Gynghorydd Her CCD fod prawf darllen cenedlaethol, yn ogystal â phrawf rhesymu a phrawf rhifedd, ar gael ar-lein. Profion wedi'u haddasu oedd y profion hyn lle gallai disgyblion sefyll profion ar lefelau gwahanol o anhawster. Roedd y profion yn mesur lle'r oedd gan ddisgyblion gryfderau a gwendidau. Gallai disgyblion sefyll y profion eto i gael canlyniad gwell yn ddiweddarach yn y flwyddyn. O ran p'un ai oedd y profion yn gwella cyrhaeddiad disgyblion ers iddynt gael eu cyflwyno, dywedodd ei fod wedi derbyn negeseuon cymysg yn hyn o beth.

Dywedodd Pennaeth Ysgol Heronsbridge ei fod yn cefnogi'r asesiadau/profion ar-lein uchod, gan eu bod yn hygyrch ac yn galluogi athrawon a disgyblion i fesur dilyniant o ran plant yn cyflawni lefelau gwahanol o gyrhaeddiad. Yn ogystal, roedd canlyniadau'r rhain ar gael ar unwaith.

Ategwyd yr uchod gan Benhaeth Ysgol Gynradd Llangowydd. Roedd y math hwn o brofion yn fanteisiol i'w cymryd ar ddechrau ac ar ddiwedd blwyddyn, er mwyn edrych ar ganlyniadau disgyblion ac asesu p'un ai oeddent wedi gwella mewn meysydd pynciau allweddol.

Dywedodd Pennaeth Ysgol Gynradd Bracula fod yr asesiadau ar-lein ar gael i blant ym Mlynnyddoedd 2 – 9 yr ysgol, ond teimlai nad oedd y profion yn addas ar gyfer disgyblion iau, gan y gallent roi straen a phwysau sylweddol ar oedran cynnar. Nid oedd y profion yn addas ychwaith ar gyfer plant agored i niwed a phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 - DYDD LLUN, 3 CHWEFROR 2020

Gofynnodd Aelod p'un ai oedd materion yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru pan oeddent yn cael eu nodi.

Dyweddodd Cadeirydd Ffederasiwn Cynradd Pen-y-bont ar Ogwr eu bod yn rhoi adborth i LIC ym mhob cyfarfod.

Awgrymodd yr Aelod os oedd adborth wedi'i ddarparu, o ystyried y pwysau a roddir ar blant iau, fod angen gwneud yr adborth yn gryf.

Holodd Aelod p'un ai oedd plant mewn dosbarth yn gwybod beth oedd lefelau eu carfan.

Dyweddodd Pennaeth Ysgol Gynradd Llangowydd ei fod yn asesiad personol, o gymharu â phrofion blaenorol, a rannwyd â rhieni.

Dyweddodd Pennaeth Ysgol Heronsbridge fod y profion yn benodol i'r plentyn. Gall disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac ADY fod yn sylweddol hŷn na'u cyfoedion prif ffrwd.

